Croesi'r Bont

Cysyniadau: **Cyfeillgarwch, cysylltu, derbyn eraill, gofal, meddwl am eraill.**

Amcan: **Arwain y plant i greu a meithrin cyfeillgarwch.**

Cyfarpar: **Lluniau o bontydd yng Nghymru a thu hwnt.**

Cyflwyniad:

● Ydych chi'n gwybod am bont yn eich ardal chi? Mae pontydd enwog ar hyd a lled Cymru. Beth am Bont y Borth (nid Pont Menai) ym Mhorthaethwy yn croesi o'r tir mawr i Ynys Môn? Beth am Bont Hafren yn croesi o Loegr i Gymru? Cyfle i'r plant sôn am bontydd yn eu hardal.

● Beth mae pont yn ei wneud? Mae pont yn cysylltu dau le. Fel arfer mae pont yn croesi afon neu gulfor. Yn yr hen amser cyn i Bont y Borth, sy'n cysylltu'r tir mawr ag Ynys Môn, gael ei hadeiladu byddai'r bobl yn croesi mewn cwch bychan neu fferi a'r anifeiliaid yn nofio ar draws Afon Menai. Felly mae pont yn hwyluso'r daith.

● Nid lle i aros arni ydi pont ond lle i fynd drosti. Mae dwy bont yn croesi afon Menai – Pont Britannia o waith Robert Stephenson a agorwyd ar 5 Mawrth 1850 a Phont y Borth a adeiladwyd gan Thomas Telford ac a agorwyd 30 Ionawr 1826. O bryd i'w gilydd, pan fydd y gwynt yn hyrddio, bydd Pont Britannia ar gau i gerbydau mawr ac felly bydd yr holl drafnidiaeth yn dod dros Bont y Borth. A dyna i chi dagfa a chynffon fawr o gerbydau a lorïau yn nadreddu'n araf dros y bont grog. Maen nhw'n sôn erbyn hyn am gael trydedd pont i groesi'r Fenai.

● Mae codi pont yn cynnig posibiliadau newydd. Cyn codi'r pontydd, ynysig iawn oedd pobl Môn. Roedd rhai pobl heb fod erioed ar y tir mawr yng Ngwynedd. Ond roedd codi'r bont yn rhoi cyfle i bobl gerdded yn ddiogel o'r naill ochr i'r llall.

Trafodaeth bellach:

● Fedrwch chi feddwl sut y gallwch chi fod yn bont?

Stori:

Wyth oed oedd Ben pan symudodd ei rieni o un ardal i ardal arall. Roedd Ben wedi bod yn ddisgybl mewn ysgol fach yn y wlad. Dim ond tri deg un o blant oedd yn yr ysgol i gyd a dwy o athrawesau. Roedd Ben wrth ei fodd yn yr ysgol. Ond pan symudodd ef a'i rieni i ardal arall roedd rhaid iddo fynd i ysgol newydd. Yn yr ysgol hon roedd dros gant o blant ac wyth o athrawon. Ar ôl y deuddydd cyntaf penderfynodd Ben nad oedd am fynd i'r ysgol. Doedd o ddim yn adnabod neb. Roedd y plant a'r athrawon yn ddieithr iddo. Y trydydd bore roedd Ben yn sâl, cur yn ei ben a phoen yn ei fol. Aeth ei fam ag ef i'r ysgol i weld y pennaeth. Ond adref yn ôl y daeth Ben. Yn ystod y dydd aeth Miss Edwards, y pennaeth, i siarad â phlant dosbarth Ben a gofyn iddyn nhw helpu Ben i setlo yn yr ysgol. Ac felly y bu. Daeth Ifan yn ffrind mawr i Ben ac o dipyn i beth daeth Deio a Gwern yn ffrindiau hefyd. Ifan oedd y bont fu'n gyfrifol am ddod â Ben a gweddill y dosbarth yn ffrindiau.

● Ydych chi wedi cael cyfle i fod yn bont? Adref neu yn yr ysgol?

● Ydi o'n bosibl bod yn bont rhwng gwahanol bobl? Beth am y Mwslemiaid neu aelodau o grefyddau arall?

Emyn: O mae'n braf cael bod yn ffrindie: Canu Clod 315

Munud i feddwl:

Codwn ormod o gloddiau a dim digon o bontydd. Isaac Newton

Cariad ydi'r bont rhyngoch chi a phopeth. Mowlana Jalaluddin Rumi

Yn nameg y Samariad caredig mae Iesu'n dweud mai'r gŵr o Samaria oedd yr un a gododd bont i gysylltu â'r dyn oedd wedi'i anafu gan y lladron.

"Felly" meddai Iesu, "yn dy farn di, pa un o'r tri fu'n gymydog i'r dyn wnaeth y lladron ymosod arno?"

Dyma'r arbenigwr yn y Gyfraith yn ateb, "Yr un wnaeth ei helpu." Luc 10:36–37 beibl.net

Myfyrdod/Gweddi:
Heddiw, mae angen i mi fod yn bont i gysylltu â rhywun sydd angen fy help. O Dduw, helpa fi i weithredu. Helpa fi i fod yn bont. Diolch. Amen.